

PWYLLGOR:	IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	11 Awst 2021
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO - THE VAYNOL ARMS
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH AMGYLCHEDD

1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer The Vaynol Arms, Pentir, Bangor, LL57 4EA. Mae'r ymgeisydd David Hughes, yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer tŷ tafarn a bwyty ar gyfer oddeutu 60 o bobl, gyda man allanol i'r cefn ar gyfer teuluoedd.
- 1.2 Gwneir y cais mewn perthynas a chwarae cerddoriaeth wedi recordio ar yr eiddo, chwarae cerddoriaeth byw, lluniaeth hwyr y nos a gwerthu alcohol ar, ac oddi ar yr eiddo.
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
- 1.4 Derbyniwyd sawl gwrthwynebiad gan breswylwyr cyfagos; manylion pellach ymlaen yn yr adroddiad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

Oriau Agor / Opening Hours:

Dydd Sul/Sunday	11:00	-	00:30
Dydd Llun/Monday	11:00	-	00:30
Dydd Mawrth/Tuesday	11:00	-	00:30
Dydd Mercher/Wednesday	11:00	-	00:30
Dydd Iau/Thursday	11:00	-	00:30
Dydd Gwener/Friday	11:00	-	01:30
Dydd Sadwrn/Saturday	11:00	-	01:30

Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:

Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors

Dydd Sul/Sunday	11:00	-	23:00
Dydd Llun/Monday	11:00	-	23:00
Dydd Mawrth/Tuesday	11:00	-	23:00
Dydd Mercher/Wednesday	11:00	-	23:00
Dydd Iau/Thursday	11:00	-	23:00
Dydd Gwener/Friday	11:00	-	00:00
Dydd Sadwrn/Saturday	11:00	-	00:00

Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do :: Indoors

Dydd Sul/Sunday	11:00	-	23:00
Dydd Llun/Monday	11:00	-	23:00
Dydd Mawrth/Tuesday	11:00	-	23:00
Dydd Mercher/Wednesday	11:00	-	23:00
Dydd Iau/Thursday	11:00	-	23:00
Dydd Gwener/Friday	11:00	-	00:00
Dydd Sadwrn/Saturday	11:00	-	00:00

Lluniaeth yn Hwyr y Nos/Late Night Refreshments:Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors

Dydd Sul/Sunday	23:00	-	00:00
Dydd Llun/Monday	23:00	-	00:00
Dydd Mawrth/Tuesday	23:00	-	00:00
Dydd Mercher/Wednesday	23:00	-	00:00
Dydd Iau/Thursday	23:00	-	00:00
Dydd Gwener/Friday	23:00	-	00:00
Dydd Sadwrn/Saturday	23:00	-	00:00

Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac Oddi ar yr Eiddo :: On and Off the Premises

Dydd Sul/Sunday	11:00	-	00:00
Dydd Llun/Monday	11:00	-	00:00
Dydd Mawrth/Tuesday	11:00	-	00:00
Dydd Mercher/Wednesday	11:00	-	00:00
Dydd Iau/Thursday	11:00	-	00:00
Dydd Gwener/Friday	11:00	-	01:00
Dydd Sadwrn/Saturday	11:00	-	01:00

1. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Gweithredir system Teledu Cylch Cyfyng
- Hyfforddi staff
- Gweithredu polisi gwirio oedran (herio 25)
- Asesiad risg dyddiol ac wythnosol i'w gynnal
- Arwyddion digonol i dynnu sylw at berygl, ac i barchu cymdogion lleol pan yn gadael
- Cadw at oriau trwyddedig

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

2. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Preswylwyr cyfagos	2 E-bost yn gwrthwynebu
Adran Gwarchod y Cyhoedd	Sylwadau

3.1 Preswylwyr cyfagos

Derbyniwyd 2 wrthwynebiad i'r cais gan breswylwyr cyfagos. Mynegwyd pryder gan un ymatebydd fod yr eiddo o fewn 10 llath i'w dy ac felly yn poeni am sŵn a chynnydd mewn traffig i'r ardal, yn dilyn cais am adloniant. Yn dilyn hyn derbyniwyd ymateb arall gan breswylwyr yn mynegi pryder o ran sŵn yn creu niwsans cyhoeddus, materion parcio ac yn cynnig dylasai'r eiddo gwtogi oriau gwerthu alcohol hyd at 23:00 yn ystod yr wythnos a Dydd Sul ac hyd at 00:00 ar ddyddiau Gwener a Sadwrn.

3.2 Adran Gwarchod y Cyhoedd

Yn dilyn sylwadau gan Adaran Gwarchod y Cyhoedd o ran oriau cerddoriaeth byw y tu allan, cytunodd yr ymgeisydd i dynnu'r cais yma yn ôl a gofyn am gerddoriaeth byw/recordio tu mewn yn unig.

4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn caniatáu'r cais yn unol a sylwadau Gwarchod y Cyhoedd â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.